**CYNGOR SIR FYNWY**

**Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy**
**Remote Microsoft Teams Meeting**
**Dydd Gwener, 22ain Ionawr, 2021, 11.00 am**

| | |
|---|---|
| **CYNGHORWYR YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Sirol: A. Easson, R. Edwards, M.Feakins, D. Jones, P. Murphy, D. Havard, R. Clark, J.D. Hayes, H. Morgan |

## SWYDDOGION YN BRESENNOL:

| | |
|---|---|
| Nikki Wellington | Rheolwr Cyllid |
| Gareth Peel | |
| Richard Williams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

## YMDDIHEURIADAU:

Cynghorydd Sirol S.B. Jones, B. Thomas

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Dim.

2. **Cadarnhau a llofnodi cofnodion cyfarfod blaenorol Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy.**

Cadarnhawyd cofnodion Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy dyddiedig 5ed Hydref 2020 a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

3. **Adroddiad Blynyddol Cronfa Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 ac Adroddiad Archwiliad Annibynnol o'r Datganiad Ariannol - Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy.**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid y cyfrifon terfynol ar gyfer diwedd y flwyddyn 2020.

Penderfynwyd cymeradwyo'r cyfrifon.

4. **Ystyried a ddylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes ganlynol yn unol ag Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd, ar y sail ei bod yn ôl pob tebyg yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf. (Amgaeir barn y Swyddog Priodol).**

Penderfynwyd eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes ganlynol yn unol ag Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd, ar y sail ei bod yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig yn debygol fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy**
**Remote Microsoft Teams Meeting**
**Dydd Gwener, 22ain Ionawr, 2021, 11.00 am**

**5. Ystyried adroddiad gan y Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc ynghylch ceisiadau a dderbyniwyd yn erbyn Cronfa Ymddiriedolaeth ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2020/21.**

Ystyriwyd 14 o geisiadau a dderbyniwyd yn erbyn Cronfa'r Ymddiriedolaeth, a gyflwynwyd ar ran y Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc.

Penderfynodd yr Ymddiriedolaeth:

(i) bod dyfarniadau'n cael eu gwneud i 13 o ymgeiswyr, fel y cytunwyd, yn amodol ar dderbyn derbynebau priodol a thystiolaeth o bresenoldeb;

(ii) nad oedd un o'r ymgeiswyr yn gymwys i dderbyn cyllid drwy'r Ymddiriedolaeth gan nad oeddent yn un o drigolion Gwent.

Cyfanswm y cyllid a ddyfarnwyd i fyfyrwyr yn y cyfarfod oedd £11920.

**6. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf**

Dyddiad dros dro o ddydd Llun 19 Gorffennaf 2021 am 11.00am.